Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwynfa**

**Gwynfa**
**103 Heol yr Orsaf Llanisien**
**Caerdydd**
**CF14 5UW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23 Hydref 2020

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gwynfa

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Oedolion Heb Ofal Nyrsio |
| Darparwr Cofrestredig | Hafod Housing Association Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 17 |
| Iaith y gwasanaeth | Ar lefel gorfforaethol, ystyrir bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gofal drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf. |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Byddai'r gwasanaeth yn ystyried darparu'r gwasanaeth i berson sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Byddai hyn yn cael ei drafod a'i drefnu yn ystod asesiadau cyn derbyn. |

## Crynodeb

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae Gwynfa yn gartref diogel, cynnes a chroesawgar. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal unigol i oedolion, yn enwedig y rhai sydd angen cymorth iechyd meddwl. Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol gan eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr a thîm gofal sy'n deall eu hanghenion. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i feithrin cydberthnasau cadarnnhaol ac i fod yn annibynnol. Mae'r staff yn gymwys, yn hyfforddedig ac yn meddu ar y cymwysterau priodol. Mae'r rheolwr a'r staff yn dangos caredigrwydd a gofal. Gwneir atgyfeiriadau priodol i weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau llesiant. Mae mesurau cadarn ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r sefydliad yn gweithio ar welliannau er mwyn nodi a chofnodi canlyniadau cadarnhaol i bobl.  Caiff y gwasanaeth ei ganmol yn uchel gan deuluoedd a'r bobl sy'n byw yno. Mae'r staff yn nodi pa mor hapus ydynt yn gweithio yn Gwynfa.

Rydym yn wynebu pandemig ar hyn o bryd ac mae cyfyngiadau ar waith. Yn sgil canllawiau'r llywodraeth, ni all bobl symud yn rhydd i mewn i gymunedau; mae amwynderau cymunedol ar gau; caiff y bobl eu cynghori i gadw pellter o 2 fetr oddi wrth bobl eraill a rhaid i staff sy'n darparu gofal wisgo cyfarpar diogelu personol priodol (PPE). Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y cyfyngiadau hyn ar waith.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn asesiadau cyn derbyn a'r broses o ddatblygu cynllun personol, gyda chymorth gweithwyr cymdeithasol neu deulu lle y bo'n briodol. Rhoddir ystyriaeth i gyflwyno unrhyw un newydd i'r cartref gyda chyfleoedd ar gyfer ymweliadau a chyfnodau prawf. Mae hyn yn anodd ar hyn o bryd oherwydd y pandemig, ond gwneir popeth i sicrhau bod y broses dderbyn yn brofiad da. Mae'r bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion ac maent yn cymryd rhan yn y broses o adolygu eu cynlluniau personol.
Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch ac maent yn trin eraill yn yr un ffordd. Dengys arsylwadau a thrafodaethau â staff, preswylwyr a theuluoedd fod y bobl yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cefnogi mewn ffordd dawel a disylw.
Caiff unigolion gymorth i wireddu eu potensial ac i wneud pethau sydd o bwys iddynt. Mae pwyllgor gweithgareddau preswylwyr wedi'i ffurfio sy'n galluogi preswylwyr i drefnu digwyddiadau yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Mae un person wedi cael ei enwebu'n gwisfeistr ac mae'n trefnu digwyddiadau cwis rheolaidd. Mae dau berson yn y cartref yn gofalu am yr anifeiliaid anwes. Arsylwyd bod y bobl yn mwynhau helpu gyda'r gwaith tŷ. Mae cynrychiolydd preswylwyr wedi cael ei ethol gan y bobl sy'n byw yn y cartref i'w helpu a sicrhau bod y gwasanaeth yn clywed eu llais. Ymgynghorir ag unigolion ynghylch pob rhan o'u cynllun gofal, y gofal a ddarperir a'u hanghenion cymorth o ddydd i ddydd. Mae'r bobl yn mynd allan ar eu pennau eu hunain os yw'n ddiogel iddynt wneud hynny er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Caiff y bobl eu helpu i gynnal cydberthnasau â'u teulu ac i wneud ffrindiau newydd. Yn sgil y pandemig, mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cyfyngiadau sy'n eu rhwystro rhag mynd allan i'r gymuned. Gwneir ymdrechion i gefnogi pobl yn ystod y cyfnod anodd hwn, a'u helpu i nodi diddordebau newydd yn y cartref.
Mae gan y cartref systemau ar waith i ddiogelu unigolion. Mae'r polisïau yn ategu'r camau gweithredu a gymerir i ddiogelu pobl. Ymgynghorir â'r bobl drwy'r broses cynllunio gofal ynghylch y risgiau y gallent fod eisiau eu cymryd, a sut y gall staff eu cefnogi. Caiff y staff wiriadau cyn cyflogi drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cadarnhau eu bod yn addas i weithio yn y lleoliad gofal. Dywedodd pob un o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn y cartref eu bod yn teimlo'n ddiogel ac y byddent yn gwybod at bwy y dylent fynd pe bai pryderon ganddynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol manwl ac unigol yn sicrhau bod staff yn gwybod y ffordd orau o gefnogi pobl. Dywedodd un person wrthym ei fod yn gwybod bod staff wedi cael hyfforddiant i gefnogi ei angen penodol a bod hynny'n rhoi sicrwydd iddo. Mae'r sefydliad wrthi'n gweithio ar y broses o gofnodi canlyniadau i bobl gan nad yw'r wybodaeth hon yn glir yn yr adolygiadau. Bydd hyn yn gwella'r ffocws ar ddatblygu pobl yn bersonol yn seiliedig ar eu dymuniadau a'u dyheadau.

Caiff y bobl gefnogaeth gyda'u llesiant emosiynol a'u hiechyd meddwl. Mae'r rheolwr a'i thîm yn empathetig ac yn dangos diddordeb gwirioneddol yn llesiant y bobl sy'n byw yn Gwynfa. Nid ydynt yn trin eu cyflogaeth “fel swydd yn unig”. Yn ôl y staff, maent wrth eu bodd yn gweithio yn y cartref. Mae tîm o weithwyr mor gefnogol yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl. Dywedodd un person wrthym, *“I won't have a bad word said about this place, everyone is kind. Helen the manager is wonderful, a very kind person*.” Pan fydd yna ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl neu ddirywiad mewn iechyd meddwl, gofynnir am y cymorth priodol yn brydlon. Yn ôl yr holl deuluoedd yr ymgynghorwyd â nhw, mae ansawdd bywyd eu hanwyliaid wedi gwella ers iddynt fod yn byw yn Gwynfa. Mae tystiolaeth bod y bobl wedi datblygu eu sgiliau cyfathrebu, wedi dod yn fwy annibynnol ac wedi gwneud ffrindiau newydd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Caiff y bobl eu helpu i ystyried yr hyn y maent yn ei fwyta ac i gynnal pwysau iach. Prydau bwyd cartref a ddarperir. Ar ddiwrnod yr arolygiad, cynigiwyd pysgod a sglodion ffres a gwnaeth pawb fwynhau'r pryd. Dywed y bobl wrthym eu bod yn hoffi'r bwyd a bod dewis bob amser.

Mae anifeiliaid anwes yn y cartref yn cyfrannu at lesiant meddyliol pawb.

Mae gan y gwasanaeth systemau diogel ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Caiff pobl eu helpu i reoli eu hanghenion meddyginiaeth, naill ai'n annibynnol neu gyda chymorth staff cymwys yn y cartref. Arsylwir bod y gwaith o archebu, storio, rheoli stoc a rhoi meddyginiaethau yn bodloni'r gofyniad rheoliadol. Byddai'n fuddiol pe bai'r cofnodion ar gyfer meddyginiaeth a gymerir *‘yn ôl yr angen’* yn nodi'r canlyniad pan fydd rhywun wedi cael y dos gofynnol. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr a rhoddodd sicrwydd y byddai hyn yn cael ei roi ar waith.

Rhoddir cymorth i gael gafael ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dengys cofnodion bod y bobl yn cael cymorth i ofyn am gyngor ynghylch eu hiechyd ac i gael triniaeth mewn modd amserol. Dywed y bobl wrthym fod y staff yn eu helpu i fynychu apwyntiadau. Dywedant hefyd fod hyn yn cael ei wneud yn ddiogel a bod yn rhaid iddynt wisgo masgiau oherwydd y pandemig.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn adeilad hŷn sy'n diwallu eu hangenion fel yr adlewyrchir yn y datganiad o ddiben. Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u gwasgaru dros dri llawr a cheir grisiau i bob llawr. Mae gan y bobl ystafell sengl ac maent yn rhannu ystafelloedd ymolchi glân. Soniwyd wrth y rheolwr bod angen darparu biniau sy'n agor â throed yn lle biniau agored a chytunodd i wneud hynny yn syth. Mae'r ystafelloedd gwely yn adlewyrchu dewisiadau'r person oherwydd gofynnir am ei farn am yr addurniadau. Gall y bobl ddodrefnu eu hystafelloedd eu hunain ag eitemau personol sy'n bwysig iddynt. Gellir cloi drysau'r ystafelloedd gwely.

Mae'r broses o ailaddurno'r holl ardaloedd cymunedol yn dod i'w therfyn. Mae'r bobl wedi helpu i ddewis lliw'r paent ac maent wedi cadarnhau eu bod yn hoffi'r canlyniad. Mae'r bobl yn rhydd i ddefnyddio'r lolfa gymunedol, yr ystafell ginio a'r ardal eistedd dawel. Mae ystafell golchi dillad sydd wedi'i dodrefnu'n dda yn caniatáu i'r bobl gael help i olchi eu dillad eu hunain. Mae rhywfaint o ôl traul ar yr ardaloedd dynodedig ar gyfer anifeiliaid anwes yn y cartref ond mae'r bobl yn dewis eistedd yma a threulio amser gyda'r anifeiliaid. Mae rhannau o'r cartref wedi'u haddurno dros dro yn barod ar gyfer parti Calan Gaeaf.

Gall y bobl reoli'r gwres yn eu hystafelloedd eu hunain ac roedd y cartref yn gynnes ar ddiwrnod yr ymweliad.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r gegin ymarferol yn cynnwys ardaloedd storio bwyd ar wahân, y mae pob un ohonynt yn cyrraedd safon uchaf yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef lefel 5.

Mae rhai seddi ar gael yn yr ardaloedd patio awyr agored. Eglurodd y bobl sut y maent yn helpu'r person cynnal a chadw i dyfu planhigion yma yn ystod misoedd yr haf.

Mae'r cartref yn hybu arferion hylendid da ac yn rheoli'r risg o haint. Arsylwyd bod y staff yn dilyn y canllawiau cyfredol ar wisgo cyfarpar diogelu personol (PPE). Mae'r cartref yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon drwg. Mae posteri a sylwadau llafar gan y staff yn atgoffa ac yn annog y bobl i gadw at arferion hylan.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi sylw dyledus i iechyd a diogelwch. Dengys archwiliadau, tystysgrifau a chadarnhad llafar gan y preswylwyr a'r staff fod mesurau cadarn ar waith i fodloni gofynion cyfreithiol. Eglurodd y rheolwr fod yr ymarfer tân yn hwyr yn cael ei gynnal ond bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r broses o'i ail-amserlennu. Darperir ardal smygu yn y cartref a gall y bobl ddewis smygu yma neu y tu allan. Mae ffedogau smygu, blychau llwch addas, cyfarpar awyru ac offer diffodd tân ar gael yn yr ardal hon. Cymerir mesurau diogelwch i atal pobl rhag smygu mewn ardaloedd nas dynodwyd er mwyn sicrhau bod pawb yn ddiogel.

## Arwain a Rheoli

Mae gan y darparwyr systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref i ymgynghori â'r bobl a'r staff. Mae'n llunio adroddiadau sy'n amlinellu canfyddiadau a meysydd ar gyfer gwella. Mae'r rheolwr rheoli ansawdd yn ymweld â'r cartref hefyd i gynnal arolygiadau ac archwilio'r holl brosesau. Mae'r ddogfennaeth a ddarparwyd yn dangos lefel dda o oruchwyliaeth ac yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd y gofal a ddarperir.
Rhoddir Canllaw a Datganiad o Ddiben i'r bobl. Mae'r dogfennau hyn yn rhai hir ac nid ydynt wedi'u hysgrifennu mewn ffordd y byddai pobl yn ei deall yn hawdd o bosibl. Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol a/neu eiriolwyr wrth law i roi'r cymorth sydd ei angen ar y bobl i ddeall y wybodaeth i gyd cyn iddynt gael eu derbyn i Gwynfa.
Caiff y bobl eu cefnogi gan nifer priodol o staff cymwys, profiadol a hyfforddedig. Mae'r ffeiliau personél yn dangos bod gwiriadau cyn cyflogi wedi'u cynnal, bod proses ymsefydlu wedi mynd rhagddi a bod y staff wedi cael yr hyfforddiant cywir ar gyfer eu rôl. Rhoddwyd gwybod i'r rheolwr fod dogfen ar goll mewn ffeil personél. Rhoddodd sicrwydd y byddai'n mynd i'r afael â hyn. Dywedodd y staff eu bod wrth eu bodd yn gweithio i'r gwasanaeth ac roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r sefydliad ehangach. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd, a gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y ffeiliau yr edrychwyd arnynt. Ar ddiwrnod yr arolygiad, arsylwyd bod y cartref yn lle tawel, cefnogol lle roedd anghenion y bobl yn cael eu diwallu. Roedd y staff y siaradwyd â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'u rôl ac yn darparu gofal mewn ffordd garedig ac ystyriol.
Mae'r gwasanaeth yn helpu unigolion i reoli eu harian yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau. Cedwir cofnodion o'r holl drafodion ac archwiliadau. Cadarnhaodd y bobl y gallent gael gafael ar eu harian pan roedd ei angen arnynt. Caiff y bobl ei helpu i ddod o hyd i gynrychiolaeth annibynnol drwy eu gweithiwr cymdeithasol os na allant reoli eu harian eu hunain.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol | | |
|---|---|---|
| Dim | | |

| Meysydd lle y mae angen gweithredu ar unwaith | |
|---|---|
| Dim | |

| Meysydd y mae angen eu gwella | |
|---|---|
| Dim | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 15/12/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi